**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Mai 2002 |
| **Amser:** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Lorraine Barrett | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Delyth Evans | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Pauline Jarman, John Griffiths.

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-12-2002 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai Mr Iwan Brioc a Ms Karen Chandler o Theatr Fforwm Cymru yn rhoi cyflwyniad byr i'r Pwyllgor i'w ddilyn gan drafodaeth gydag Aelodau'r Pwyllgor.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC479 – Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.1 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol gyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.3 Codwyd y cwestiwn ynglŷn â chynnwys y Rheoliadau hyn. Bydd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol yn edrych i mewn i'r mater hwn. **Gweithredu: Ymgynghorwyr Cyfreithiol**

3.4 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC479 (Adroddiad).

**LC480 – Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002**
3.5 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol gyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.7 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC480 (Adroddiad).

**LC481 – Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.8 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn eu hadroddiad a chymeradwywyd newidiadau arfaethedig i'r testun Cymraeg yn rhinwedd memorandwm o gywiriadau.

3.10 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC481 (Adroddiad).

**Eitem 4 Gohebiaeth y Pwyllgor**
**Llythyr oddi wrth Jane Hutt AC, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, dyddiedig 9 Mai 2002.**
**LC459 – Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002**
4.1 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymateb i lythyr 9 Mai 2002 at Jane Hutt AC, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y **Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002**. Ystyriodd y Pwyllgor bod y Rheoliadau yn adroddadwy o dan Reol Sefydlog 11.5 fel a ganlyn

- Roedd angen esbonio Rheoliad 4(1) a (2) ymhellach. O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Reoliad 4;
- Roedd angen esbonio Rheoliad 12(c) ymhellach. O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Reoliad 12(c);
- Roedd angen esbonio Rheoliad 13(2) ymhellach. O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Reoliad 13(2);
- Roedd Rheoliad 21(1) yn cynnwys anghysondeb rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r anghysondeb hwn.
- Roedd angen esbonio Atodlen 3 ymhellach. O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Atodlen 3.

4.2 Gwnaeth y Pwyllgor 3 sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn eu hadroddiad.

**Llythyr oddi wrth Jane Hutt AC, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, dyddiedig 3 Mai 2002**
**LC463 – Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2002**
4.3 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymateb i lythyr 3 Mai 2002 at Jane Hutt AC, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y **Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru).** Ystyriodd y Pwyllgor bod y Rheoliadau yn adroddadwy o dan Reol Sefydlog 11.5 fel a ganlyn

- Roedd Adran 79F o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn cynnwys gwall drafftio a allai gael ei gywiro yn y fersiwn a gyhoeddir. O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Adran 79F.
- Roedd Rheoliad 7(2) yn cynnwys gwall drafftio a allai gael ei gywiro yn y fersiwn a gyhoeddir. O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Reoliad 7(2).
- Roedd angen egluro Rheoliad 7(5)(c) ymhellach. O ganlyniad, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Reoliad 7(5)(c).

4.4 Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn eu adroddiad.

**Eitem 5: Trafodaeth â chynrychiolwyr Theatr Fforwm Cymru**
5.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr Theatr Fforwm Cymru sef Ms Karen Chandler, y Swyddog Marchnata a Mr Iwan Brioc, y Cyfarwyddwr Cyswllt i'r Pwyllgor.

5.2 Anerchodd Mr Iwan Brioc y Pwyllgor ynglŷn â chefndir Theatr Fforwm Cymru a'u project presennol sef "yr AGORA", a gynhelir yn yr *Oval Basin*, Bae Caerdydd rhwng Mehefin 26-28 2002. Esboniodd Mr Brioc mai man agored oedd yr AGORA a ddefnyddiwyd ers talwm gan ddeddfwyr a dinasyddion i gwrdd fel cydraddolion. Hysbysodd y Pwyllgor am brofiad Brasil o ddefnyddio perfformiadau theatrig i gyfleu materion deddfwriaethol.

5.3 Anerchodd y Swyddog Marchnata, Ms Karen Chandler, y Pwyllgor ynglŷn ag ymarferoldeb yr AGORA. Dywedodd Ms Chandler y byddai'r AGORA yn cael ei gynnal mewn 3 cromen geodesig. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai grwpiau cymunedol ledled Cymru yn cyflwyno darnau o theatr ddeddfwriaethol bob diwrnod, gyda thrafodaethau anffurfiol, cynllunio polisi a chynhadledd i'r wasg hefyd. Gwahoddodd Ms Chandler yr Aelodau i fynychu.

5.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth.

- Byddai'r AGORA yn cael ei gynnal dros dri diwrnod ac er mwyn ei fynychu byddai angen i Aelodau'r Cynulliad wybod beth yw trefn y digwyddiadau. Esboniwyd y byddai pob diwrnod yn cael ei neilltuo'n fras i un pwnc penodol: 26$^{ain}$ Mehefin – Y Gymuned, 27$^{ain}$ Mehefin – Ieuenctid a 28$^{ain}$ Mehefin – Iechyd.
- Codwyd y cwestiwn ynglŷn â ffynonellau ariannu a'r broses o ddewis grwpiau cymunedol i gymryd rhan. Esboniwyd fod prif nawdd y project yn cael ei roi gan Gronfa Cymunedau Gweithredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac ELWa. Roedd pedwar grŵp ar ddeg yn cymryd rhan yn y project. Yn wreiddiol, cysylltodd Theatr Fforwm Cymru â 3000 o grwpiau a oedd ar ei chronfa ddata. O'r rhain, mynegodd 100 ohonynt ddiddordeb mewn cymryd rhan. Lluniwyd rhestr fer a nodwyd y 14 grŵp presennol. Byddai 10 grŵp arall yn dechrau eu hyfforddiant ym mis Medi.
- Codwyd pryder na fyddai pwerau cyfyngedig y Cynulliad Cenedlaethol yn ddigon i alluogi'r materion a godwyd i gael eu gwireddu. Gofynnwyd i gynrychiolwyr Theatr Fforwm Cymru am eu cynlluniau i hyrwyddo'u materion y tu hwnt i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Esboniwyd fod Theatr Fforwm Cymru yn gysylltiedig â'r rhwydwaith Ewropeaidd o sefydliadau tebyg a'u bod yn barod i ddod â'r materion gerbron yr arbenigwyr Hawliau Dynol Ewropeaidd. Roedd yna gynlluniau i dargedu Aelodau Seneddol, Aelodau Seneddol Ewropeaidd a Chyrff Statudol.

5.5 Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor Deddfau, i gynrychiolwyr Theatr Fforwm Cymru am eu cyfraniad.

**Eitem 6: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

6.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Mai 2002.